# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 10ed Mehefin 2024
## Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Alun Williams, Gareth Jones, Deio Williams, John Daveis, Sian Parri, Henry Hughes, Catrin Williams, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Alan Hughes, Chris Brady

1. Cadeirwyd gan Henry Hughes, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
    a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) -** Dywedodd y Clerc ei bod wedi rhoi cais am grant i gael hysbysfwrdd metel wedi ei wneud gan Chris Brady ar gyfer Tudweiliog, bydd yn rhoi cais arall am un pren ar gyfer Garfadryn.
    b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Bu I'r Clerc wneud cais am gyngor am ddim I Bwrdd Dwr a Chyfoedd Naturiol Cymru, ond daeth ymateb gan y ddau yn dweud fod angen tal am wasanaeth pellach. Bydd y Clerc yn mynd ymlaen I dalu am y Cyngor yma. Ni chafwyd ymateb gan adran Cynllunio ar ol ir Clerc ymateb I'r pwyntiau a godwyd yn y 'cyngor cyn cais'.
    c. **Traffic a'r lon yr ysgol –** Cafodd y Clerc wybod fod mesurydd cyflymdra wedi ei osod ar safle gwahanol I'r cyntaf, byddwn nawr yn derbyn canlyniad yr archwyliad.
    ch. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** ni chafwyd ymateb.
    d. **Car wedi ei adael ar safle parcio Garfnadryn** – Mae'r car erbyn hyn wedi cael ei symud.

dd. **Perthyn-** Rhoddodd Sian Parri adroddiad o'r sefyllfa diweddaraf a danghoswyd llythyr a anfonwyd at yr AS Jeremy Miles.

4. Yn ystod ail hanner y cyfarfod, gadawodd y Cadeirydd y gadair, a chroesawyd y Cadeirydd newydd Catrin Williams. Diolch I Henry Hughes am ei waith dros y flwyddyn diwethaf. Etholwyd Sioned Pearson yn Is Gadeirydd.

5. Gohebiaeth:
   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
   b. **Cyflwr Lon Cefnamwlch -**Unwaith eto daeth cwyn am gyflwr y lon rhwng Beudu Bigyn a Sarn – anfonodd y Clerc neges arall ir adran ffyrdd.
   c. **Cynllun Hyfforddiant –** Mabwysiadwyd a cytunwyd ar y cynllun hyfforddiant.
   d. **Lwfansau Cynghorwyr –** Bu I'r ddau Gynghorydd or yn absennol mis diwethaf arwyddo'r ffurlen.

   dd. **Cofrestr Buddianau Aelodau –** Bu I bob Cynghorydd oedd yn bresennol lenwi'r ffurflen buddianau.

6. Unrhyw Fater Arall:-
   a. Cafwyd cwyn fod tyllai drwg ar dro ger Bragdy Dinas, Bydd y Clerc yn ysgrifennu at yr adran ffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Gorffennaf 8ed 2024 am 7.30yh
Festri Capel Dinas.